# Ieuenctid Cefn Gwlad yn Allfudo a Newid i'r Boblogaeth yng Nghymru

## Trosolwg

Mae'r rhagolygon yn awgrymu bod Ewrop ar fin mynd i gyfnod o ddiboblogi sylweddol, wrth i Eurostat ragweld y bydd cyfanswm poblogaeth yr Undeb Ewropeaidd yn gostwng 6% erbyn 2100. Yn achos Cymru, mae'r modelau'n fwy gobeithiol ac yn fwy amrywiol, gyda thwf y boblogaeth yn arafu neu'n aros yn ei unfan o ganol y 2020au. Mewnfudo net yn unig sy'n cynnal twf y boblogaeth yng Nghymru am fod nifer y marwolaethau yn fwy na nifer y genedigaethau.

Bydd **esblygiad poblogaeth Cymru yn anwastad yn ddaearyddol.** Disgwylir i'r twf grynhoi mewn trefi a dinasoedd mwy. Rhagwelir y bydd poblogaeth ardaloedd gwledig yn sefydlog ar y cyfan, neu'n gostwng, gan barhau ar hyd y llwybrau presennol. Mae yna eisoes dros 200 o wardiau gwledig yng Nghymru lle roedd y boblogaeth wedi gostwng yn ystod y degawd diwethaf, ac mae'n debygol mai yn y mannau hyn y bydd y boblogaeth yn parhau i ostwng yn y dyfodol.

Mae deall a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r boblogaeth wledig yn bwysig oherwydd yr effaith ar hyfywedd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol lleol, ond hefyd oherwydd cyfraniad y newid yn y boblogaeth wledig i ddatblygiad cyffredinol y boblogaeth yng Nghymru. Nid yw'r bobl sy'n gadael cymunedau gwledig o reidrwydd yn symud i fannau eraill yng Nghymru. Mae nifer yn mudo allan o Gymru, gan effeithio ar y ffigurau mudo net ar gyfer Cymru gyfan. **Pe byddai allfudo o gefn gwlad yn cyflymu, gallai olygu gostyngiad ym mhoblogaeth Cymru.**

Yn yr un modd ag y mae newid yn y boblogaeth yn anwastad yn ddaearyddol, mae yna **wahaniaethau demograffig yn y patrwm mudo i gefn gwlad Cymru ac oddi yno**. Ar y cyfan, mae yna fewnfudiad net o bobl hŷn i ardaloedd gwledig ond allfudiad net gan bobl iau, yn cynnwys o gymunedau sydd fel arall yn tyfu.

Canfu Arolwg o Bobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru yn 2021 (Woods ac Utz, 2022) fod **dau o bob pum person ifanc mewn ardaloedd gwledig yn rhagweld byddent yn symud allan o Gymru yn ystod y pum mlynedd nesaf**. Yn hynny o beth, mae ieuenctid cefn gwlad yn grŵp allweddol ar gyfer cynnal cymunedau cytbwys a bywiog mewn ardaloedd gwledig, ac ar gyfer datblygu poblogaeth Cymru gyfan.

Mae yna lawer o resymau pam y mae pobl ifanc yn symud i ffwrdd o gefn gwlad Cymru, ond **mae cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a mynediad at dai fforddiadwy ymhlith y rhesymau pwysicaf**. Mae cyfran sylweddol o allfudwyr ifanc yn **'ymadawyr anfoddog', y gellid eu denu i aros** (neu i ddychwelyd ar ôl astudio) trwy weithredu i wella mynediad at swyddi a thai addas, a thrwy wneud gwelliannau i drafnidiaeth a seilwaith cymdeithasol.


Mae angen targedu gweithredoedd yn briodol, gan roi pwyslais ar gefnogi entrepreneuriaeth, paru sgiliau â buddsoddiad economaidd, a hyrwyddo sectorau megis yr economi greadigol. Gellir dysgu gwersi o enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli eisoes yng Nghymru ac mewn

mannau eraill (Center for Rural Innovation, 2021; Gibson, 2008; Mathieu et al., 2022). Archwilir profiad ac arfer perthnasol yn yr Alban mewn papur gwyntyllu cymar gan yr Athro Rebecca Kay [ar fynd i'r afael â diboblogi yng nghefn gwald](#) (2023).

## Pwy sy'n gadael cefn gwlad Cymru ac i ble y maent yn mynd?

Yn y degawd rhwng 2011 a 2021 roedd poblogaeth naw sir wledig Cymru yn sefydlog ar y cyfan, gan ostwng ychydig yn llai na 1,000 o bobl yn gyffredinol. Roedd hyn yn dilyn gweld twf y boblogaeth yn arafu ers yr 1980au.

Fodd bynnag, mae'r darlun hwn o stasis yn cuddio amrywiad sylweddol yn y newid yn y boblogaeth ar lefel leol. Er i rai wardiau gwledig yng nghyffiniau trefi ehangu'n gyflym yn y cyfnod hwn – yn gysylltiedig yn bennaf â datblygiad nifer mawr o dai newydd – gostyngodd y boblogaeth yn 236 o wardiau gwledig yng Nghymru. Roedd y rhain wedi’u lleoli’n bennaf yn ardaloedd ucheldiroedd Canolbarth a Gogledd Cymru a Bannau Brycheiniog, ar Ynys Môn, ac ar hyd arfordiroedd Bae Ceredigion a Bae Caerfyrddin (Ffigur 1).




*Ffigur 1: Y newid yn y boblogaeth mewn wardiau gwledig yng Nghymru, 2011-2019 (Ffynhonnell: [Adroddiad Tystiolaeth Golwg Wledig](#))*

Fel yn achos Cymru gyfan, mae poblogaeth cefn gwlad Cymru wedi cael ei chynnal o ganlyniad i fudo yn unig. Heb fudo, byddai poblogaeth Cymru wedi disgyn tua 20,000 o bobl er 2011, a hynny trwy newid naturiol.  Mae mewnfudiad o rannau eraill o Brydain ac yn rhyngwladol wedi cydbwyso’r cyfuniad o newid naturiol negyddol ac allfudo ar gyfer cefn gwlad Cymru yn gyffredinol, ond yn y cymunedau hynny sy'n profi diboblogi, nid yw mewnfudo yn ddigonol i wneud gwahaniaeth.

Mae llifoedd mudo eithaf cymhleth yng Nghymru a thu hwnt yn sail i’r ffigurau cyfanredol hyn. Mae pobl sy'n symud o ardaloedd awdurdodau lleol gwledig yng Nghymru yn fwy tebygol o symud i Loegr nag i ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru: [rhwng 2010 a 2020](#), symudodd 209,447 o bobl i Loegr o awdurdodau lleol gwledig yng Nghymru, a symudodd 180,759 i ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae mwy o bobl yn symud i gefn gwlad Cymru o Loegr nag sy’n mudo o gefn gwlad Cymru i Loegr: symudodd 209,447 o bobl o awdurdodau lleol gwledig yng Nghymru i Loegr rhwng 2010 a 2020, a symudodd 249,229 o bobl o Loegr i awdurdodau lleol gwledig Cymru.


Yn gyffredinol, felly, er gwaethaf ardaloedd sylweddol o ddiboblogi gwledig, mae mudo net i awdurdodau lleol gwledig ac allan ohonynt yn cyfrannu at y cynnydd ym mhoblogaeth Cymru, nid yn tynnu oddi wrtho.

Ac eto, mae yna hefyd wahaniaethau sylweddol yn y [patrymau mudo yn ôl grŵp oedran](#). Yn 2018-19 **profodd pob awdurdod lleol gwledig yng Nghymru allfudiad net o bobl ifanc 16-24 oed**, ond profodd pob un heblaw Gwynedd fewnfudo net gan bobl 65 oed neu hŷn.  Yn aml, mae mudo ar ôl ymddeol yn cael ei gyfeirio at gymunedau arfordirol neu ardaloedd gwledig mwy hygyrch, tra bo pobl ifanc yn allfudo o bob rhan o gefn gwlad Cymru. Mae’r anghydbwysedd hwn yn cyfrannu at bocedi o ddiboblogi.

## Mae ieuenctid yn allfudo wrth wraidd diboblogi yng nghefn gwlad

Cadarnhaodd [arolwg ar-lein](#) o 1056 o bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed a oedd yn byw yng nghefn

gwlad Cymru, ac a gynhaliwyd yn haf 2021 gan y prosiect ROBUST, fod ieuenctid cefn gwlad yn grŵp allweddol sy'n gadael Cymru. Dim ond 18% o'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg a oedd yn meddwl y byddent yn dal i fyw yn eu hardal leol ymhen pum mlynedd. Roedd llai nag un o bob chwech yn meddwl y byddent yn symud i dref neu ddinas fwy yng Nghymru, ac roedd llai nag un o bob deg yn meddwl y byddent yn symud i rywle arall yng nghefn gwlad Cymru. Roedd y segment mwyaf o bell ffordd – 42% – yn rhagweld y byddent yn symud allan o Gymru (Ffigur 2).




*Ffigur 2: Disgwyliadau o ran mudiad gan bobl ifanc (14-25 oed) sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru, 2021 (n=1056) (Ffynhonnell: Arolwg o Bobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru)*

## Pam y mae pobl ifanc yn gadael cefn gwlad Cymru?

Mae'r rhesymau pam y mae pobl ifanc yn symud i ffwrdd o gefn gwlad Cymru yn amrywiol, ond **mae pryderon ynghylch addysg, cyflogaeth a thai i gyd yn gyffredin**. Canfu'r arolwg o Bobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru fod 81% o'r ymatebwyr yn meddwl y byddai angen iddynt adael eu hardal leol ar gyfer addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ac roedd 48% yn meddwl y byddai angen iddynt symud i ffwrdd i ddod o hyd i dai addas, fforddiadwy.

Yn achos llawer o bobl ifanc, mynd i'r brifysgol yw'r penderfyniad sy'n mynd â nhw allan o gymunedau gwledig, ac yn aml allan o Gymru. Gall hyn fod yn gyfle i brofi bywyd mewn 'dinas fawr', a bydd rhai yn canfod hyn yng Nghaerdydd neu Abertawe. I eraill, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, gallai hyn, yn fwy rhesymegol, olygu Manceinion, Lerpwl neu Lundain. Nododd rhai ymatebwyr **ganfyddiadau y byddai'n rhaid iddynt edrych y tu allan i Gymru am brifysgol 'dda' neu i astudio'r cwrs o'u dewis, canfyddiad a gâi ei feithrin gan ysgolion mewn rhai achosion.**

Ni waeth beth fo'u cymhelliant, ystyriai nifer sylweddol o bobl ifanc na fyddent yn disgwyl dychwelyd i Gymru pe byddent yn mynd i'r brifysgol y tu allan i Gymru, gan nodi gwell cyfleoedd cyflogaeth mewn mannau eraill.

Fodd bynnag, roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys ymatebwyr hŷn a oedd wedi symud 'nôl i gartrefi eu rhieni yng nghefn gwlad Cymru ar ôl graddio, mewn rhai achosion oherwydd opsiynau cyfyngedig yn ystod pandemig COVID-19. Er bod rhai o blith y grŵp hwn wedi dod o hyd i swyddi ac yn bwriadu aros, roedd eraill yn disgwyl symud i ffwrdd eto, yn anad dim i ddod o hyd i gyflogaeth yn y maes yr oeddent wedi ei astudio. Yn benodol, ystyriwyd bod cefn gwlad Cymru yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig o ran swyddi ym maes peirianneg, cyfrifiadura, y biowyddorau, a'r diwydiannau creadigol. Roedd hyd yn oed rhai o'r bobl ifanc a oedd wedi cael swyddi yng nghefn gwald Cymru o'r farn y byddai'n rhaid iddynt symud er mwyn camu ymlaen yn eu gyrfa.

Roedd pobl ifanc nad oeddent wedi bod i'r brifysgol, yn enwedig y rheiny a oedd wedi mynd i faes 'crefftau', er enghraifft yn rôl trydanwr neu blymwr, yn fwy tebygol o fwriadu aros yng nghefn gwlad Cymru; fodd bynnag, roedd rhai'n rhag-weld y byddai'n rhaid iddynt symud i ardal newydd i sefydlu eu busnes eu hunain.

Ystyriwyd bod fforddiadwyedd tai yn ffactor gwthio a fydd yn cymell pobl ifanc i adael ardaloedd gwledig, ond ni chafodd hyn ei gyflwyno'n gyffredinol fel esboniad dros symud *i* le penodol. Pan gâi hynny ei nodi, roedd y symudiadau a ragwelwyd yn tueddu i fod yn rhai cymharol leol, er enghraifft i dref megis Aberystwyth neu Fangor. Er y cyfeiriwyd yn aml at gystadlu ag ail gartrefi neu dai gwyliau ar osod, roedd sylwadau'r ymatebwyr i'r arolwg yn gyffredinol yn nodi gwybodaeth fanwl gyfyngedig am brisiau cymharol tai. Dim ond un ymatebydd

a nododd, *“Mae’r unig dai y byddaf yn gallu eu fforddio yng nghefn gwald Cymru”.*

Yn ogystal â chyflogaeth a thai, canfu’r arolwg o Bobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru fod dewisiadau o ran ffordd o fyw hefyd o bwys o ran llunio disgwyliadau pobl ifanc o ran mudo. Mynegodd nifer o’r rheiny a ymatebodd i’r arolwg ac a nododd eu bod yn hoyw, yn drawsryweddol neu’n anneuaidd – er nad pob un – awydd i adael eu hardal leol (ac mewn rhai achosion, Cymru) oherwydd profiadau o wahaniaethu neu gam-drin, neu oherwydd rhwystredigaeth ynghylch diffyg mannau cymdeithasol a rhwydweithiau cymorth priodol. Yn fwy cyffredinol, dywedodd 40% o'r holl ymatebwyr y byddai'n well ganddynt fyw mewn tref neu ddinas fawr, gyda’r canfyddiad o gyfleoedd cymdeithasol ac adloniant ehangach a diwylliant mwy cosmopolitaidd yn aml yn eu denu.

O'r canlyniadau hyn, roedd yr adroddiad Pobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru yn dosbarthu pobl ifanc wledig i dri grŵp. Mae’r rhai sy’n **bwriadu gadael** yn cyfrif am hanner y garfan, nad oes arnynt eisiau aros yn eu hardal leol. Mae dau draean o'r rhain am fyw mewn dinas. Dim ond 10% o’r bobl ifanc sy'n **debygol o aros**, ac y mae'n well ganddynt fyw mewn ardal wledig (neu y mae ganddynt agwedd niwtral) ac nad ydynt yn ystyried y bydd angen iddynt symud ar gyfer tai, cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Mae'r grŵp sy'n weddill yn **ymadawyr anfoddog** neu'n **ddarpar arhoswyr**, y byddai'n well ganddynt aros yn eu hardal leol (neu sydd o leiaf yn agored i aros) ond sy'n credu y bydd angen iddynt symud i ffwrdd. Mae'r grŵp hwn yn 40% o ymatebwyr yr arolwg, neu, o'u graddio i fyny i gwmpasu’r boblogaeth gyfan, tua 40,000 o bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru. Yr unigolion hyn sy'n allweddol i fynd i'r afael ag allfudo gwledig.

> **Mae pedwar o bob deg person ifanc yng nghefn gwlad Cymru yn 'ymadawyr anfoddog' neu'n 'ddarpar arhoswyr'**


## Beth a all helpu i gadw pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru?

Nid oes yna’r un ymyrraeth polisi a fyddai'n datrys problem allfudo ymhlith pobl ifanc cefn gwlad Cymru; fodd bynnag, **gallai pecyn o fesurau sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth, tai a seilwaith wneud gwahaniaeth**.

Canfu'r arolwg o Bobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru fod dros hanner yr ymatebwyr wedi nodi y byddai newidiadau megis 'mwy o swyddi sy'n briodol i’m gyrfa arfaethedig', 'swyddi â gwell cyflogau', 'mwy o dai fforddiadwy', 'mwy o gyfleusterau adloniant a hamdden', a 'gwell cysylltiadau trafnidiaeth â threfi a dinasoedd mwy', yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn aros yn eu hardal leol (Ffigur 3).

Mae angen targedu ymyraethau yn briodol iddynt fod yn effeithiol, yn enwedig at y ffactorau penodol a bwysleisir gan y 'darpar arhoswyr'. Mae argaeledd tai fforddiadwy, swyddi sy'n talu'n well, ac, i raddau llai, cymorth i ddechrau busnes, yn bwysicach i'r grŵp hwn nag i bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru yn gyffredinol.

Yn yr un modd, nid yw creu rhagor o swyddi mewn ardaloedd gwledig yn ddigon ynddo’i hun. Mae angen i gyfleoedd o ran cyflogaeth dalu’n dda a chyfateb i uchelgeisiau pobl ifanc o ran eu gyrfa. Fodd bynnag, nid yw'r rhain o reidrwydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhaglenni datblygu economaidd, gan gynnwys y bargeinion twf yng Nghanolbarth Cymru, Gogledd Cymru a De-orllewin Cymru.





*Ffigur 3: Newidiadau posibl a fyddai'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddai pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru yn aros yn eu hardal leol (neu'n dychwelyd yno) (n = 1056) (Ffynhonnell: Arolwg o Bobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Chymru, 2021)*

Pan ofynnodd arolwg Pobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru iddynt am eu diddordeb mewn detholiad o ddiwydiannau a sectorau, dim ond 13% o'r ymatebwyr a fynegodd ddiddordeb mewn gweithio ym maes technoleg werdd neu ynni adnewyddadwy, 12% mewn technoleg gwybodaeth neu gyfrifiadura, 8% mewn biotechnoleg, 6% mewn gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg, 4% mewn prosesu neu farchnata bwyd, a 3% mewn amaethyddiaeth ddigidol (er bod rhai o'r ffigurau hyn yn cael eu camystumio gan gynrychiolaeth annigonol ymhlith dynion yn sampl yr arolwg).

**Y sector mwyaf poblogaidd o bell ffordd oedd y diwydiannau creadigol, a ddewiswyd gan draean o ymatebwyr yr arolwg**, yn cael ei ddilyn gan ofal iechyd (21%) a rheoli cadwraeth/rheoli amgylcheddol (18%). Mae ffermio yn parhau i fod o ddiddordeb i tua un o bob deg o'r bobl ifanc, gan gynnwys 15% o'r dynion ifanc – sy'n uwch na'r gyfran bresennol o'r gweithlu yng nghefn gwlad Cymru sy'n gyflogedig ym maes amaethyddiaeth.

Yn sgil pandemig COVID-19, rhagfynegwyd y gallai normaleiddio gweithio o bell helpu i atal diboblogi gwledig – trwy i weithwyr o bell symud i gymunedau gwledig i fanteisio ar fuddion ffordd o fyw, a thrwy alluogi pobl ifanc cefn gwlad i gyrchu amrywiaeth ehangach o swyddi tra eu bod yn aros yn eu hardal leol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad Pobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru yn cwestiynu'r dybiaeth hon. Er i 28% o'r 'darpar arhoswyr' ddweud y byddai mwy o gyfleoedd i weithio gartref yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn aros yn eu hardal leol, pan ofynnwyd iddynt am eu hamgylchedd gwaith dewisol, **dewisodd llai nag un o bob deg o ymatebwyr yr arolwg weithio gartref i gwmni neu sefydliad mawr.** Nododd chwarter y byddai'n well ganddynt weithio i gwmni neu sefydliad mawr mewn gweithle. Yn ddiddorol, y dewis mwyaf poblogaidd ymhlith dynion ifanc oedd rhedeg eu busnes eu hunain; roedd traean wedi dewis hyn (Ffigur 4).




*Ffigur 4: Amgylchedd gweithio dewisol o ran gyrfa ar gyfer pobl ifanc (14-25 oed) sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru, 2021 (n=1056) (Ffynhonnell: Arolwg o Bobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru)*

## Beth y gellir ei wneud? Dysgu o'r hyn sy'n gweithio yng Nghymru a thu hwnt

Nid Cymru yw'r unig wlad lle mae'r ieuenctid yn allfudo a lle mae diboblogi'n digwydd mewn ardaloedd gwledig. Wynebir heriau tebyg ledled Ewrop, Gogledd America, Awstralia ac mewn mannau eraill. Nid oes yr un rhanbarth wedi dod o hyd i ateb sydd wedi atal neu wrthdroi allfudo ymhlith pobl ifanc, ond rhoddwyd cynnig ar fentrau sydd wedi cael rhywfaint o lwyddiant o ran mynd i'r afael â ffactorau cyfrannol. Ynghyd ag enghreifftiau presennol o arfer da yng Nghymru, gellir defnyddio'r rhain i arwain cyfres o ymyraethau posibl:

1. **Cefnogi Entrepreneuriaid Ifanc.** Mae gan lawer o bobl ifanc ddiddordeb mewn rhedeg eu busnes eu hunain fel opsiwn a allai eu helpu i aros yng nghefn gwlad Cymru, ond yn aml nid ydynt yn gwybod lle i ddechrau. Mae cynllun Llwyddo'n Lleol 2050 Menter Môn yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol yn fodel llwyddiannus ar gyfer cefnogi entrepreneuriaid ifanc, gan gynnwys cyllid sbarduno, hyfforddiant a mentora i ddatblygu syniad cychwynnol ar gyfer busnes. Yn yr un modd, mae'r prosiect EYE in Rural wedi datblygu adnoddau i gefnogi entrepreneuriaid gwledig ifanc yng Ngwlad Groeg, Gwlad Pwyl a Sbaen, sy'n cynnwys llawlyfr entrepreneuriaeth, modiwl addysgol ar-lein, a hyfforddiant a sesiynau blasu peilot.

2. **Datblygu'r Economi Greadigol.** Yn Awstralia, gwelwyd bod entrepreneuriaeth ddiwylliannol yn strategaeth allweddol sy'n caniatáu i bobl ifanc aros mewn rhanbarthau gwledig tebyg i arfordir gogleddol De Cymru Newydd, lle mae cyfleoedd o ran ffordd o fyw yn ddeniadol.

   Mae dwy elfen i ddatblygu'r economi greadigol fel ffordd o ddarparu bywoliaethau i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig: denu busnesau creadigol canolig eu maint, a all gynnig craidd o swyddi cyflogedig; a seilwaith i gefnogi gweithwyr llawrydd creadigol. Gellir darparu'r ddwy elfen gan hybiau tebyg i'r Egin yng Nghaerfyrddin, sy'n gartref i brif swyddfa S4C fel cwmni angori, ac sy'n darparu cyfleusterau stiwdio, cyfarfod ac ôl-gynhyrchu i'w llogi, yn ogystal â hwb menter sy'n cynnig gwasanaethau a gofod deori ar gyfer entrepreneuriaid lleol. Roedd y cyhoeddiad Rural Vision for Wales yn cynnig efelychu model yr Egin mewn rhannau eraill o Gymru wledig, gyda hybiau'n canolbwyntio ar ffilm, cerddoriaeth, dylunio a gemau cyfrifiadurol.

   Mae incwm afreolaidd yn golygu bod angen yn aml i entrepreneuriaid creadigol gyfuno sawl swydd neu weithgaredd. Gall hyn fod yn heriol mewn ardaloedd gwledig, er bod yna enghreifftiau o unigolion yn cyfuno gwaith llawrydd ym maes celf, cerddoriaeth neu ddylunio â ffermio, cynhyrchu bwyd lleol, neu weithgareddau twristiaeth mewn 'economi gìg wledig'. Mae'r Center on Rural Innovation yn yr Unol Daleithiau wedi argymell sawl cam gweithredu ar gyfer

cefnogi economïau gìg, gan gynnwys cysylltu gweithwyr llawrydd â busnesau lleol, llwyfannau digidol i hyrwyddo cyfleoedd, adeiladu ecosystem hyfforddi hyblyg, a chreu mannau a lleoedd lle y gall gweithwyr gìg gwrdd a rhwydweithio.

3. **Cysoni Uchelgeisiau o ran Gyrfaoedd, Sgiliau a Buddsoddiadau Economaidd.** Mae rhaglenni buddsoddi economaidd yng nghefn gwlad Cymru yn blaenoriaethu sectorau newydd megis technoleg werdd a biowyddoniaeth, sydd â'r potensial i ddarparu swyddi medrus sy'n talu'n dda. Er mwyn sicrhau budd wrth greu cyfleoedd i bobl ifanc leol (nid ymfudwyr cymwysedig yn unig), mae angen ymdrech i fynd ati mewn ysgolion i hyrwyddo'r arfer o weithio yn y sectorau hyn ac i ddarparu hyfforddiant cysylltiedig trwy ddarparwyr addysg bellach ac addysg uwch lleol sydd â dulliau darparu hyblyg.

   Mae'r Campus Coutances Métiers de nature yng ngogledd Ffrainc yn cyflwyno enghraifft o gyn-ysgol uwchradd amaethyddol sydd wedi ymroi i hyfforddi 'gweithwyr natur proffesiynol' ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd ym maes ffermio, cadwraeth a rheoli amgylcheddol i gefnogi trefniadau adfywio gwledig lleol sy'n cael eu llywio gan natur. Yng Nghymru, gallai ailfeddwl am drefniadau addysg a hyfforddiant gwledig adeiladu ar ddarparwyr arloesol presennol megis Coleg y Mynydd Du a'r Ganolfan Technoleg Amgen.

4. **Hwyluso Tai Cydweithredol ar gyfer Pobl Ifanc yng Nghefn Gwald.** Mae argaeledd a fforddiadwyedd tai yn un o'r problemau mwyaf anodd ei thrin sy'n cyfrannu at bobl ifanc yn allfudo o gefn gwlad. Gall prosiectau tai cydweithredol fod yn rhan o'r ateb trwy ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc symud allan o gartrefi eu rhieni mewn cymunedau lle mae marchnadoedd rhent yn gyfyngedig, a rhannu costau perchnogaeth eiddo. Gall hen dafarndai, capeli ac ysgolion, ac adeiladau fferm adfeiliedig fod yn safleoedd priodol i'w hailddatblygu i greu tai cydweithredol mewn pentrefi llai.

   Mae Wild Peak Housing yn Swydd Derby, sydd wedi adnewyddu adeiladau fferm i gartrefu hyd at ddeg oedolyn a'u dibynyddion, a phrosiect Tombreck Farm, sy'n anelu at adeiladu eco-dai i'w rhentu neu ar gyfer perchnogaeth rhannu ecwiti yn yr Alban, yn enghreifftiau o fodelau o dai gwledig cydweithredol y gellid eu mabwysiadu yng Nghymru.

5. **Hyrwyddo Byw yng Nghefn Gwlad ymhlith Pobl Ifanc.** Mae llawer o'r rhesymau sy'n gwneud i bobl ifanc adael cefn gwlad Cymru yn cael eu llunio gan heriau canfyddedig, ac nid gan rwystrau a wynebwyd mewn gwirionedd. Dylai ymgyrchoedd i hyrwyddo byw yng nghefn gwlad ymhlith bobl ifanc amlygu esiamplau ac enghreifftiau, a rhoi mynediad at adnoddau gwybodaeth, ac felly gallant fod yn rhan o'r ateb i'r broblem o bobl ifanc yn allfudo.

   Mae ymgyrchoedd hyrwyddo tebyg wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r byd. Yng Nghanada, er enghraifft, ar gyfer Project Comeback aeth tref fechan Smithers ati i gynhyrchu llyfryn o'r enw *Kids Came Back*, sy'n cynnwys pobl ifanc leol a symudodd i ffwrdd i gael addysg ond sydd wedi dychwelyd a dod yn aelodau llwyddiannus o'r gymuned. Mae cwmnïau'n ei ddefnyddio wrth recriwtio gweithwyr ac i drafod â phobl ifanc lleol y cyfleoedd sydd yn eu hardal.

## Detholiad o Gyfeiriadau


Center on Rural Innovation and Rural Innovation Strategies Inc (2021) The Growing Gig Economy in Rural America. Center for Rural Innovation.

Gibson, C. (2008) Youthful creativity in regional Australia: panacea for unemployment and out-migration? *Geographical Research*, 46, 195.

https://doi.org/10.1111/j.1745-5871.2008.00509.x

Mathieu, N., de Lafond, V. a Veith, B. (2022) Training in “nature professions”: a driving force for the rural regeneration of “Pays Coutancais”. RURALIZATION T5.2 Adroddiad Astudiaeth Achos

Woods, M., Heley, J., Howells, H. a Goodwin-Hawkins, B. (2021) *A Rural Vision for Wales: The Evidence Report*. Prifysgol Aberystwyth.

Woods, M. ac Utz, P. (2022) *Young People in Rural Wales: Survey Report*. Prifysgol Aberystwyth.

## Gwybodaeth am yr awdur

Mae'r Athro Michael Woods yn Athro ym maes Daearyddiaeth Ddynol ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle mae'n Gyd-Gyfarwyddwr Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, ac yn Gyd-gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD). Mae wedi ymchwilio i newid cymdeithasol ac economaidd yng nghefn gwlad Cymru ers dros 25 mlynedd, gan gynnwys trwy brosiect Horizon 2020, ROBUST (2017-21), ac Arsyllfa Gwledig Cymru (2003-2013).

Mae’r ‘Papur Gwyntyllu’ yn tynnu ar waith ymchwil a wnaed yn rhan o’r prosiect ROBUST (Rural Urban Outlooks: Unlocking Synergies) gan Brifysgol Aberystwyth a Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a ariennir gan raglen ymchwil Horizon 2020 y Comisiwn Ewropeaidd (Cytundeb grant 727988).

## Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi arweiniol i ddarparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy’n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau o ran polisi.

Mae’r Ganolfan, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi’i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith What Works y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

**Amanda Hill-Dixon**

+44 (0)29 2087 5345

Amanda.hill-dixon@wcpp.org.uk

**Wales Centre for Public Policy**

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP